

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol Lle Rhoddwyd Rhybudd: Broadway Hair, Beauty & Holistic Centre

Dyddiad arolygu: 6 Hydref 2016

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun.....	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau	8
	Ansawdd profiad y claf	8
	Roedd copïau cyfredol o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion (a oedd yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben) ar gael. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth berthnasol i gleifion fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Mae ffeil wybodaeth cleifion ar gael hefyd, sy'n cynnwys manylion megis prisiau, y prosesau cwyno a holiaduron cleifion.....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	10
	Adolygwyd y dogfennau cysylltiedig â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod llythyr wedi ei ddarparu gan y Cyngorwr Diogelu rhag Laserau, lle'r oedd mesurau rheoli wedi eu hamlinellu'n gryno. Gwelsom fod gan y gwasanaeth ddogfen a oedd yn cynnwys asesiad risg amgylcheddol a gynhaliwyd bob blwyddyn.	11
	Edrychwyd ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Gwelsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn a bod allanfeydd tân wedi eu harwyddo. Roedd asesiad o risg tân wedi ei gwblhau. Dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis a bod cofnodion yn cael eu cadw.	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	12
6.	Camau Nesaf	14

Atodiad A.....15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ymdrechu i sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a sefydlu sut mae'r gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am ein canfyddiadau ni ar ôl arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau o fewn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiwi.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gydag aelodau staff (lle bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, y canllaw i gleifion a'r wefan (lle bo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a lenwyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu golwg gyffredinol o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi yn sgil arolygiad mewn hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd manylion o'r fath, yn ogystal ag unrhyw welliannau eraill angenrheidiol, yn cael eu cynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau'n rhoi ciplun ar ddiwrnod yr arolygiad o'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos pan fo diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiannau systematig. Golyga hyn achosion o ganlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac achosion o fethiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Broadway Hair, Beauty & Holistic Centre wedi ei chofrestru fel ysbyty annibynnol i gynnig triniaethau gyda thechnoleg golau pwls dwys (IPL)³ yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, Campws Ty-coch, Abertawe, SA2 9EB. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 17 Mai 2016.

Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli yn y coleg ac yn cynnig rhaglen academiaidd ran amser i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer tystysgrif mewn Triniaethau Laser a Golau Pwls Dwys. Mae'r cwrs yn darparu hyfforddiant ac asesiad ar theori ac ymarfer laserau a golau pwls dwys.

Ar adeg yr arolygiad, roedd tri myfyriwr yr ail flwyddyn yn dilyn y cwrs ac yn cael hyfforddiant dan oruchwyliaeth. Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe yw'r darparwr cofrestredig. Mae yno diwtor cwrs, sef y person cofrestredig i 'gynnal a rheoli' y gwasanaeth, ac unigolyn arall a enwir i gynorthwyo wrth 'gynnal' y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed:

Golau pwls dwys Energist Ultra ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Ieuangu'r croen.

³ Mae golau pwls dwys (IPL) yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetaidd a therapiwtig.

4. Crynodeb

Canfuwyd meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Nodir mwy o fanylion ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

Yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion gael gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon â'u triniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Yr hyn y mae angen ei wneud er mwyn gwella'r gwasanaeth:

- Rhaid cynnal y prosesau cadw cofnodion
- Diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau
- Systemau ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau a'r safonau.

Mae angen gwelliannau yn nhrefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddifffyg cydymffurfio, mae disgwyliad y bydd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau ystyrlon er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad ar lafar cyn y driniaeth. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r risgiau a'r manteision ac roedd y myfyrwyr yn datblygu taflenni gwybodaeth i gleifion ynglŷn â hynny dan oruchwyliaeth y tiwtor. Gofynnwyd i'r cleifion roi caniatâd ysgrifenedig cyn y driniaeth a rhoddwyd prawf ar ran o'r croen cyn pob triniaeth. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a chanllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi i gleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod gofyn i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol ym mhob triniaeth.

Roedd cofrestr o'r triniaethau'n cael ei chynnal. Fodd bynnag, cynghorwyd y rheolwr cofrestredig i gynnwys mwy o fanylion ar y gofrestr o driniaethau i ddibenion hunan archwilio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarw cofrestr y triniaethau er mwyn sicrhau bod cofnod cynhwysfawr o driniaethau'n cael ei gadw, a chynnwys y canlynol:

- ***Enw'r claf neu fanylion adnabod unigryw'r claf***
- ***Cofnod o'r rhan o'r corff sy'n cael ei thrin***
- ***Manylion am unrhyw effeithiau gwrthwynebus ar ôl y driniaeth.***

Dywedwyd wrthym fod nodiadau cleifion unigol wedi eu cadw ym mhob blwyddyn academiaidd, ond na chafodd y nodiadau hyn eu cadw'n unol â rheoliadau rheoli cofnodion (sonnir mwy am hyn yn adran rheolaeth ac arweinyddiaeth yr adroddiad).

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd copïau cyfredol o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion (a oedd yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben) ar gael. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth berthnasol i gleifion fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Mae ffeil wybodaeth cleifion ar gael hefyd, sy'n cynnwys manylion megis prisiau, y prosesau cwyno a holiaduron cleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn ceisio barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Dosbarthwyd holiaduron cleifion gan y rheolwr cofrestredig a chafodd deg eu dychwelyd. Sylwyd bod lefelau boddhad cyffredinol yn uchel yn yr ymatebion i gyd a nodir rhai o'r sylwadau isod:

'Mae'r gwasanaeth wedi bod yn effeithlon ac effeithiol iawn. Mae'r myfyrwyr yn wybodus iawn ac yn hyderus yn eu gwaith.'

'Cynorthwyol a gofalus iawn bob amser. Mae'r myfyrwyr yn wybodus ac yn ateb fy nghwestiynau. Mae'r tiwtor bob amser yn arsylwi'r myfyrwyr yn yr ystafell, sy'n gwneud imi deimlo'n hyderus yn y driniaeth.'

'Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a chynorthwyol. Eglurir popeth yn llawn.'

'Mae'r myfyrwyr a'r staff wedi bod yn wybodus a phroffesiynol iawn wrth roi'r triniaethau a rhoi cyngor dilynol. Amgylchedd proffesiynol a meithringar sy'n gwneud imi deimlo'n ddiogel bob amser.'

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwasanaeth wedi bod yn defnyddio ffurflenni cleifion AGIC er mwyn gofyn am adborth gan gleifion ar eu profiad o'r driniaeth a ddarperir ac roedd hyn wedi caniatáu i'r adborth fod yn ddienw.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig eu bod wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan gleifion er mwyn cyfrannu at a/neu wella arferion y gwasanaeth lle bo'n briodol.

Roedd adborth cleifion ar gael yn ffeil wybodaeth y cleifion ac roedd tystebau cleifion wedi eu rhoi ar eu gwefan. Mae'r rheolwr cofrestredig yn y broses o ddatblygu dogfen arolwg cleifion fewnol i'w defnyddio. Cytunwyd y byddid yn cynnwys adborth ffurfiol ar unrhyw gamau a gymerir yng nghanllaw'r cleifion, fel bod cleifion yn cael gwybod am ganlyniad arolygon cleifion bob blwyddyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r peiriant laser a Chraidd o Wybodaeth.⁴ Roedd rheolau lleol⁵ ar waith, sy'n nodi'r ffordd ddiogel i ddefnyddio'r offer, ac roedd y rheolau wedi eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a'r myfyrwyr er mwyn dangos eu bod yn cytuno i'w dilyn. Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser ac roedd y protocolau wedi eu goruchwyllo gan ymarferwr meddygol arbenigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru i drin cleifion dros 18 oed. Dangosodd y rheolwr cofrestredig eu bod wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu. Roedd polisi diogelu ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed ar waith gyda rhifau cyswllt lleol ar gael er mwyn atgyfeirio.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn amlwg yn lân a thaclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod trefniadau glanhau priodol ar waith.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Edrychwyd ar drefniadau cynnal a chadw'r safle. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy yn gyfredol, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau electronig bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod y tystysgrifau nwy a gwifriad bob pum mlynedd yn gyfredol. Gwelsom dystiolaeth bod

⁴ Bwriedir hyfforddiant Craidd o Wybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau yn ddiogel.

⁵ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gweithio diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â rheoli diogelwch pob dydd laserau, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau (LED).
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaethu a chalibrad flynyddol gan y gweithgynhyrchwr.

Dywedwyd wrthym fod yr ystafell driniaeth yn cael ei chloi yn ystod triniaethau a gwelsom arwyddion rhybudd ar du allan y drws i ddangos bod peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr allwedd ar gyfer gweithredu'r peiriant laser yn cael ei thynnu pan na fyddai'n cael ei defnyddio a'i chadw'n ddiogel i atal defnydd o'r peiriant heb awdurdod.

Gwelsom fod sbectol ddiogelwch ar gael i gleifion, gwarchodwyr a defnyddwyr awdurdodedig. Roedd yn ymddangos bod y sbectol ddiogelwch mewn cyflwr addas. Nododd y rheolwr cofrestredig fod addasrwydd y sbectol ddiogelwch wedi ei ystyried gan y Cyngorwr Diogelu rhag Laserau.

Adolygwyd y dogfennau cysylltiedig â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod llythyr wedi ei ddarparu gan y Cyngorwr Diogelu rhag Laserau, lle'r oedd mesurau rheoli wedi eu hamlinellu'n gryno. Gwelsom fod gan y gwasanaeth ddogfen a oedd yn cynnwys asesiad risg amgylcheddol a gynhaliwyd bob blwyddyn.

Edrychwyd ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Gwelsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn a bod allanfeydd tân wedi eu harwyddo. Roedd asesiad o risg tân wedi ei gwblhau. Dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis a bod cofnodion yn cael eu cadw.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Corfforaeth Addysg Uwch Coleg Gŵyr Abertawe yw darparwr cofrestredig Broadway Hair, Beauty & Holistic Centre. Mae yno diwtor cwrs, sy'n weithredwr laser hyfforddedig/person cofrestredig i 'gynnal a rheoli' y gwasanaeth, ac unigolyn arall a enwir i gynorthwyo wrth 'gynnal' y gwasanaeth. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth ar ddarparu lefel uchel o ofal ac ar drin cleifion gyda charedigrwydd.

Roedd datganiad o ddiben ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod myfyrwyr a oedd yn gweithio tuag at y dystysgrif mewn Triniaethau Laser a Golau Pwls Dwys yn cael eu goruchwyllo gan diwtor y cwrs, sydd wedi derbyn hyfforddiant perthnasol y gweithgynhyrchwr i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys, bob amser. Dywedwyd wrthym fod y myfyrwyr wedi derbyn yr hyfforddiant craidd o wybodaeth, fel sy'n ofynnol cyn gweithredu'r peiriant golau pwls dwys. Gwelsom fod y myfyrwyr wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y rheolau lleol.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant a oedd ar waith yn y gwasanaeth. Gwelsom fod polisiâu ar waith a bod mynegai wedi ei ddarparu. Roedd y rhan fwyaf o'r polisiâu a welwyd wedi eu llofnodi, eu dyddio a'u lleoli'n briodol i'r gwasanaeth.

Roedd angen diweddarau'r polisiâu a'r gweithdrefnau canlynol:

- Cofnodion o driniaethau'r cleifion
- Polisi cadw data
- Trefniadau sicrwydd ansawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau'n unol â'r safonau a'r rheoliadau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Mae manylion ynglŷn â'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn delio â chwynion wedi eu cynnwys yng nghanllaw'r cleifion a'r datganiad o ddiben. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi derbyn cwyn ffurfiol hyd yn hyn. Mae trefniadau ar gyfer derbyn cwynion llafar a/neu ysgrifenedig ac mae llyfr cwynion ar gael er mwyn cofnodi cwynion fel y'u derbynnir. Mae'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Nododd y rhai a ymatebodd i holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder neu gŵyn gyda'r gwasanaeth.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod darpariaeth ar gyfer cadw nodiadau'r cleifion yn ddiogel, mewn cabinet dan glo mewn man diogel. Er bod nodiadau cleifion wedi eu cadw yn ôl pob blwyddyn academiaidd, dywedwyd wrthym nad oedd y cofnodion hyn wedi eu cadw'n unol â'r rheoliadau cadw cofnodion. Nid oedd modd inni felly ystyried cofnodion cleifion unigol. Rhaid i gofnodion cleifion gael eu cadw'n unol â'r rheoliadau a'r safonau.

Dim ond ar system electronig yr oedd y cofnod o apwyntiadau wedi ei gadw a chafwyd problem gysylltiedig â cheisio cael gafael ar y data ar ôl methiant yn y system. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod copïau wrth gefn o gofnodion electronig bellach yn cael eu cadw'n ddyddiol.

Dylid ystyried sicrhau bod mwy o drefniadau effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i fonitro cydymffurfiaid â'r rheoliadau a'r safonau. Mae angen gwelliannau i drefniadau sicrwydd ansawdd y gwasanaeth. Mae angen i'r personau cofrestredig ddatblygu eu gwybodaeth am reoliadau a safonau perthnasol a'u dealltwriaeth ohonynt. Cynghorwyd y rheolwr cofrestredig i sicrhau bod copi o'r rheoliadau a'r safonau'n cael ei gadw ar safle'r gwasanaeth fel bod modd cyfeirio ato a'i ddefnyddio fel canllaw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n unol â'r rheoliadau a bod y polisi cael gwared â data yn cael ei ddiweddarau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwyr wella eu gwybodaeth am y rheoliadau a'r safonau perthnasol a datblygu'r systemau sicrwydd ansawdd.

6. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A i'r arolygiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd ar gyfer Broadway Hair, Beauty & Holistic Centre yn cael sylw, gan gynnwys yr amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: **Broadway Hair, Beauty & Holistic Centre**

Dyddiad yr arolygiad: **6 Hydref 2016**

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Yr hyn y mae angen ei wella Dylid diweddarau'r gofrestr o driniaethau i sicrhau y cedwir cofnodion cynhwysfawr am driniaethau, fel a ganlyn: • Enw/rhif unigryw i adnabod y claf • Cofnod o ba ran o'r corff a gafodd ei drin • Manylion unrhyw effeithiau niweidiol yn dilyn y driniaeth.	Rheoliad 23 (1) a 45 (2)	Diweddarwyd y cofnod triniaethau ac ychwanegwyd colofnau ychwanegol i gynnwys rhagor o wybodaeth. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys ar ddalen driniaeth unigol y cwsmer hefyd.	Jacqueline Lee	10 Hydref 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
	Dim				
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
10	Dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn unol â'r safonau a'r rheoliadau.	Rheoliad 9	Gwnaeth y rheolwr cofrestredig adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau a chael eu bod yn cyd-fynd â'r rheoliadau. Mae rheoliad 9, 19, 23 a 45 yn cael eu bodloni yn yr un modd bellach.	Jacqueline Lee	31 Hydref 2016
11	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau a bod y polisi gwaredu data yn cael ei ddiweddarau.	Rheoliad 23 (1) (b)	Mae'r holl staff sy'n gyfrifol am ymdrin â data cwsmeriaid wedi cael eu diweddarau yn unol â rheoliad 23.	Jacqueline Lee	7 Hydref 2016
11	Mae angen i reolwyr gael gwell dealltwriaeth o'r rheoliadau a'r safonau perthnasol a datblygu'r systemau sicrhau ansawdd.	Rheoliad 19 a 9	Caiff copi o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ei gadw yn y ffeil ac mae'r rheolwr cofrestredig yn cyfeirio at y rhain i gael arweiniad.	Jacqueline Lee	7 Hydref 2016

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): **Jacqueline Lee**.....

Teitl: **Rheolwr Cofrestredig**.....

Dyddiad: **1 Ionawr 2017**.....